TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

RSL Subsidiary Diploma for Music Practitioners Level 3

Yn gryno

Bydd yr Ysgol Roc Lefel 3, ar y cyd â chyfleusterau rhagorol ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent, yn cynnig profiad dysgu rhagorol i chi lle gallwch gael y wybodaeth a'r sgiliau penodol sydd eu hangen i gwrdd â gofynion y diwydiant cyffrous yma.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth

... Ydych eisiau'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol ar gyfer y diwydiant

... Yw eich bryd ar ddilyn cwrs cysylltiedig mewn prifysgol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r hyblygrwydd a'r ystod o unedau yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddisgyblaethau perthnasol. Byddwch yn gallu cael cydnabyddiaeth o'ch cyraeddiadau trwy sgiliau cerddorol

ymarferol ar y cyd â'ch astudiaeth seiliedig-ar-theori.

Blwyddyn 1

Diploma Atodol Lefel 3 RSL ar gyfer Ymarferwyr Cerdd

Perfformiadau cerddorol byw
Sgiliau ymarfer cerddoriaeth
Y cerddor sesiwn
Dilyniant a chynhyrchu cerddoriaeth
Rheoli digwyddiadau cerddorol
Iechyd a diogelwch mewn digwyddiadau cerddorol
Cyfansoddi

Blwyddyn 2

Diploma Estynedig Lefel 3 RSL ar gyfer Ymarferwyr Cerdd

Recordio sain mewn stiwdio
Peirianneg sain byw
Cynllunio ar gyfer gyrfa mewn cerddoriaeth
Traethawd cerdd estynedig
Perfformio cerddoriaeth wedi'i recordio
Hyrwyddo cerddoriaeth
Datblygiad technoleg recordio cerddoriaeth

Er mwyn datblygu eich sgiliau ymarferol, bydd gennych fynediad i stiwdio gyda chyfarpar digidol o'r radd flaenaf. Fe'ch anogir i gymryd rhan mewn digwyddiadau cerddorol niferus trwy gydol y DU.

Byddwch yn cael eich asesu trwy arholiadau, portffolio, gwaith cwrs ac asesiadau ymarferol a byddwch yn cyflawni:

Diploma Atodol Lefel 3 RSL ar gyfer Ymarferwyr Cerdd (Blwyddyn 1)
Diploma Estynedig Lefel 3 RSL ar gyfer Ymarferwyr Cerdd (Blwyddyn 2)

Bagloriaeth Cymru

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cymwysterau perthnasol eraill i hybu eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch arnoch, yn cynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 gyda Gradd Teilyngdod.

Bydd angen i chi fod â diddordeb brwd mewn cerddoriaeth a'r brwdfrydedd a'r penderfyniad i ddatblygu eich sgiliau ymarferol. Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc a hunanysgogiad. Dylech hefyd feddu ar y brwdfrydedd a'r agwedd bositif y bydd darpar gyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Disgwylir i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun. Disgwylir i chi hefyd fynychu gymaint o ddigwyddiadau â phosibl a rhwydweithio gyda chymaint o bobl ag y gallwch.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Gallech symud ymlaen i gwrs yn ymwneud â cherddoriaeth mewn prifysgol neu ddod o hyd i waith mewn meysydd megis sain byw, goleuo, AMP neu Dechnegydd Drymiau neu berfformio ar lefel led-broffesiynol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen gitâr neu gitâr fas eu hunain ar gitaryddion. Bydd angen gwifren gitâr a ffyn drymio ar bob myfyriwr.